



Polisi Amgylcheddol Grwp Bwyd Gogledd Orllewin Cymru

Mae Grwp Bwyd Gogledd Orllewin Cymru wedi prynu cwpanau aml-ddefnydd wedi'u brandio i'w defnyddio gan gynhyrchwyr ymhob digwyddiad. Gellir golchi pob cwpan a'u hail-ddefnyddio yn ôl y galw. Felly, byddwn yn gostwng y nifer fydd angen eu cynhyrchu. Hefyd, bydd y sistem yn rhoi terfyn ar yr egwyddor canlynol: cwpan un-ffordd ar gyfer pob person.

Bydd Grwp Bwyd Gogledd Orllewin Cymru yn gwerthu'r cwpanau i gynhyrchwyr am bris sydd yn gweithio allan yn 90c yn cynnwys TAW a bydd y cynhyrchwr yn codi blaendal o £1 y cwpan ar y defnyddiwr. Wrth wneud hyn ni fydd angen i'r cynhyrchwyr brynu cwpanau ymlaen llaw, bydd GBGOC yn cyflenwi pob cynhyrchwr. Unwaith mae'r defnyddiwr wedi prynu cwpan byddant yn eu hail-ddefnyddio drwy gydol y digwyddiad. Mae cyfle i'r defnyddiwr ddod â'r gwpan yn ôl ar y diwedd a derbyn y blaendal yn ôl. Bydd y cwpanau yn cael eu golchi a gallent gael eu hail-ddefnyddio.

Yn union fel mae archfarchnadoedd wedi gweithredu i gael gwared o fagiâu plastic, rydym yn rhagweld dyfodol tebyg iawn ac y bydd symudiad o ddefnyddio cwpanau tafladwy i ddefnyddio cwpanau aml-ddefnydd yn y dyfodol. Mae hyn felly yn ymrwymiad pendant mewn lleihau gwastraff.

Mae creu gwastraff mewn digwyddiadau mawr, megis gwyliau, yn dod yn ddegau o dunelli ar sail dyddiol. Mae modd osgoi peth o'r gwastraff megis cwpanau tafladwy. Mae'r cwpanau yma yn sumbol o gynnyrch lle mae eu defnydd yn unigryw.

Mae'r Dalaith Unedig ac Iwerddon yn cael gwared o dros 800 miliwn o gwpanau tafladwy pob blwyddyn i safleoedd tirlenwi, rydym angen #Ail-ddefnyddioNidGwastraff a mabwysiadu cwpanau aml-ddefnydd mewn mwy o ddigwyddiadau. Cwpanau plastig yw un o lygryddion mwayf y byd ac yn anffodus mae'r niferoedd sydd yn cael eu taflu i safleoedd tirlenwi yn tyfu bob blwyddyn. Yn syfrdannol mae darn cymaint a Chymru o wastraff plastig yn y Môr Tawel ac mae gwastraff bwyd a diod y gellir ei osgoi ac a deflir i safleoedd tirlenwi cymaint a llenwi 8400 o byllau nofio maint Olympaidd! Nid yw plastig arferol yn diraddio am filoedd o flynyddoed ac mae plastig bioddiraddadwy yn cael ei wasgu mor dynn nad ydyw yn dod i gyswllt gyda digon o aer a dwr i ddiraddio chwaith.

Manteision ar gyfer y Cynhyrchwr

- Cynhyrchir refeniw o werthiant y cwpanau, gwelir yr elw fel arfer pan godir blaendal yn y bar am gwpan a gedwir yn hytrach nag sydd yn cael ei rhoi yn ôl yn hwyrach ymlaen.
- Arbed amser glanhau ar ddiwedd digwyddiadau, fydd yn lleihau costau staffio ar gyfer glanhau y safle neu'r lleoliad.
- Lleihad arwyddocaol o wastraff masnachol yn mynd i dirlenwi ac arbedion ariannol o ganlyniad.
- Gallu ail-ddefnyddio'r cwpanau sydd wedi'u brandio – gwych ar gyfer yr amgylchedd a rhoi hwb i grediniaeth gwyrdd a gostwng pris fesul defnydd o bob cwpan.
- Costau cael gwared – pan fo'r Cwpanau wedi'u Brandio yn cyrraedd diwedd eu hoes maent yn cael eu hailgylchu a'u troi yn bibellau traenio.
- Yn fwy diogel ar gyfer y cyhoedd gyda llai o wydr wedi'i dorri neu blastig ac felly yn lleihau costau argyfwng.

Manteision ar gyfer y Defnyddiwr

- Y gynulleidfa neu'r cefnogwyr yw'r bobl bwysicaf mewn unrhyw ddigwyddiad, heb eu presenoldeb a'u cefnogaeth ni fuasai digwyddiadau yn mynd ymlaen. Ynghyd â bod yn gofrodd arbennig ac ymarferol yn ystod digwyddiad mae nifer o fanteision eraill i Gwpanau wedi'u Brandio.
- **Ymarferol** – Mae cwpanau wedi'u brandio yn edrych yn well na chwpanau tafladwy rhad ac yn fwy cyfforddus i'w dal oherwydd plastig cryfach, sydd yn lleihau gollyngiadau o gymharu a chwpanau tafladwy bregus, mae cortyn a dalwyr-cwpan ar gael hefyd yn ei gwneud yn haws byth.
- **Casgladwy** – Mae cefnogwyr yn casglu Cwpanau wedi'u Brandio dros gyfnod o ddigwyddiadau a fydd yn cynrychioli eu gwyliau, timoedd neu artistiaid gorau, sydd yn hawdd i'w cario yn ystod digwyddiadau ac yn gallu mynd i'r peiriant golchi llestri wedyn. Mae handlen yn galluogi cario mwy o ddiod ar unwaith felly yn golygu llai o sefyll mewn rhes a methu'r sioe.
- **Llai o Ysbwriel** – Ni fydd môr o wastraff yn dilyn digwyddiad sydd yn gwneud llanastr ar esgidiau ac yn gwneud y lleoliad yn llai pleserus gyda biniau llawn. Edrych ar ôl y genhedlaeth nesaf drwy leihau ein ôl troed carbon gyda'n gilydd.
- **Defnydd ar ôl digwyddiad** – Defnyddiol yn y cartref ar gyfer partion a phlant gan nad ydynt yn torri. Gallent hefyd gael eu defnyddio ar gyfer amryw o bethau eraill megis dal brws-dannedd, pensiliau neu oriadau, cwpanau dal grawnfwyd neu bot dal blodau lliwgar i enwi ychydig. Gallwch fynd â hwy i wyliau eraill sydd yn defnyddio cwpanau tafladwy a dangos eich hun gyda'ch cwpan aml-ddefnydd!